

# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Carwe

## Dyddiad yr arolygiad: **Tachwedd 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae'r pennaeth a'i dîm rheoli yn dylanwadu'n gadarnhaol ar yr ysgol trwy greu cymuned ofalgar. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos mwynhad yn eu gwersi. Trwy gydweithio agos ar draws ysgolion y ffederasiwn, a thrwy'r gofal a gynigir i'r disgyblion, mae'r holl staff yn ymgorffori arwyddair y ffederasiwn, sef 'law yn llaw y daw llwyddiant'.

Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n bachu dychymyg disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r ystod eang o brofiadau a ddarperir ar gyfer disgyblion ieuengaf yr ysgol yn hybu eu medrau dysgu annibynnol yn hynod effeithiol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn briodol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn siarad a darllen yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso medrau ysgrifennu yn llwyddiannus gyda chymorth fframweithiau parod, a'r mwyafrif yn ysgrifennu'n rhydd yn addas pan gânt y cyfle. Er bod llawer o ddisgyblion yn cymhwyso medrau yn addas, nid yw'r disgyblion hynaf yn datblygu ystod lawn o fedrau rhifedd gwahanol, ac nid yw lefel yr her bob tro'n ddigon uchel ar eu cyfer. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu adborth defnyddiol i ddisgyblion, gan gynnwys cyfleoedd i gywiro gwaith. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gyfoethogi cynnwys eu gwaith yn dilyn adborth.

Mae Ysgol Carwe wedi ei ffedereiddio ag Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Ponthenri. Golyga hyn fod yr ysgolion yn rhannu un corff llywodraethol a bod y pennaeth yn rhannu ei amser ar draws y tri safle. Mae'r staff yn cydweithio'n agos iawn â chydweithwyr yn yr ysgolion eraill er mwyn cynllunio a darparu profiadau cyson ar gyfer y disgyblion. At ei gilydd, mae arweinwyr yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn briodol. Er hyn, nid yw'r gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwella bob tro'n  ddigon miniog i fynd i'r afael â phob maes i'w wella.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Sicrhau ystod lawn o weithgareddau rhifedd i'r disgyblion hynaf sy'n cynnig her briodol iddynt wneud cynnydd hyd eithaf eu gallu**

**A2 Sicrhau bod adborth gan athrawon yn cefnogi’r disgyblion i wella eu gwaith**

**A3 Miniogi prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhelliad o’r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/01/2025

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy’n cael eu dangos yn rhai o’r ysgol sy’n destun yr adroddiad hwn.